# CROESO I GYLCHLYTHYR DIWEDD BLWYDDYN CARFAN DATBLYGU'R GYMUNED – RhCT GYDA'N GILYDD

RHIFYN: 4
EBRILL 2023 – MAWRTH 2024




[RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)](rctcbc.gov.uk)

**Cynnwys:**

Pwy ydyn ni? - tudalen 2
Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth, Gwirfoddoli a Chymorth i Drigolion – tudalennau 3 – 4
Trosglwyddo Asedau Cymunedol – tudalennau 5 – 6
Cyllid ac Adnoddau - tudalennau 7 – 8
Cymunedau sy'n Oed Gyfeillgar – tudalennau 9 – 10
Beth sydd i ddod – tudalen 11
Manylion cyswllt – tudalen 12

## Pwy ydyn ni?


Cafodd RhCT Gyda'n Gilydd ei sefydlu yn 2015. Dyma ddull y Cyngor o weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau, y Trydydd Sector a'r Sector Wirfoddol, sefydliadau a thrigolion er mwyn adeiladu cymunedau mwy dyfeisgar a chydnerth.

Rydyn ni'n ceisio gwneud hyn drwy weithio ar y cyd â thrigolion a phartneriaid yn y meysydd cynhwysfawr canlynol:

- Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth a Chymorth i Drigolion
- Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Rhaglenni, Cyllid ac Adnoddau Cymunedol
- Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
- Cymunedau Oed-gyfeillgar

## Ymrwymiad Carfan RhCT Gyda'n Gilydd i bawb yw:

Gwrando a bod yn agored i syniadau newydd. Cydweithio a thrin pawb gyda charedigrwydd, parch a sensitifrwydd, gan hyrwyddo ymdeimlad o berthyn ac annog cymunedau bywiog a chydnerth ar sail o obaith, gonestrwydd, empathi ac uniondeb.



RCT TOGETHER

SUPPORTING COMMUNITIES AND RESIDENTS TO THRIVE



# Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth, Gwirfoddoli a Chymorth i Drigolion

Mae Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned yn cynorthwyo Rhwydweithiau Cymdogaeth drwy ddarparu safle i gydlynu anghenion cymorth trigolion a chymunedau. Yn y lleoliadau yma, mae modd i bobl dderbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y sector wirfoddol i ddarparu cymorth uniongyrchol i drigolion o Ganolfannau Cydnerthedd y Gymuned.
Mae Rhwydweithiau Cymdogaeth yn bartneriaethau lleol sy'n cynnwys sefydliadau a grwpiau lleol sy'n cydweithio gyda Gwasanaethau'r Cyngor, i ddarparu'r hynny sydd ei angen mewn cymunedau, a gweithgareddau er mwyn datblygu cymunedau ymhellach. Mae Rhwydweithiau Cymdogaeth yn canolbwyntio ar ardal ddaearyddol Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned ac mae modd iddyn nhw ddylanwadu ar ddatblygiadau mewn cymunedau a Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn cydnabod 7 o Ganolfannau Cydnerthedd y Gymuned:

- Yr Hwb, Glynrhedynog
- Plaza'r Porth
- Canolfan Pennar (Aberpennar)
- Llyfrgell Aberdâr
- Llys Cadwyn (Pontypridd)
- Llyfrgell Llantrisant
- Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg.

Mae 13 Rhwydwaith Cymdogaeth yn weithredol ledled Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd.

Nifer y rhwydweithiau gafodd eu cynnal **82**

Nifer y bobl oedd yn bresennol **916**

Cymorth i Drigolion – gofynnwch am gymorth unrhyw bryd

Nifer o geisiadau gan drigolion am gymorth **1693**

Nifer y trigolion newydd sy'n defnyddio'r gwasanaeth **1117**

Nifer y Talebau Archfarchnad mewn Argyfwng gafodd eu dosbarthu **562**

Nifer y Talebau Tanwydd gafodd eu dosbarthu **48**

RCT TOGETHER

SUPPORTING COMMUNITIES AND RESIDENTS TO THRIVE



"Cefais fy rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar a doedd dim lle i mi droi. Roeddwn i eisiau troi dalen newydd a throedio'r llwybr cywir. Cysylltais â Chydlynwyr Cymuned Cyngor Rhondda Cynon Taf drwy Gymorth i Drigolion ac roedden nhw wedi creu argraff dda gyda'r lefel o gymorth a gwybodaeth gafodd eu darparu i mi mewn modd cyfeillgar. Mae gyda fi nawr sefydliadau i droi atyn nhw ac rwy'n ymgysylltu â'r gwasanaethau yma."

Mae popeth rydych chi wedi'i wneud heddiw wedi lleddfu baich, diolch yn fawr.

Mae gwybod bod cymorth y Cyngor ar gael wedi bod yn help mawr i ni fel teulu ac rydw i wir yn gwerthfawrogi'r help rydych chi wedi'i roi i ni.

Hwb Dros Dro Dewi Sant 'Cadw'n Ddiogel dros y Gaeaf': Cafodd achlysur gwybodaeth ei gynnal mewn partneriaeth â Rheolwr Clwstwr Meddygon Teulu Taf ac Interlink RhCT i ddarparu gwybodaeth a chyngor i drigolion.
Mynychodd 36 o drigolion ac roedd 10 o sefydliadau/gwasanaethau yna hefyd.
"A ninnau'n nyrsys, dydyn ni ddim yn cael amser i chwilio am bob gwasanaeth ar Google dros egwyl, felly rwy'n falch fy mod i wedi canfod rhai asiantaethau bydd fy nghleientiaid yn elwa ohonyn nhw."
"Rydw i wedi derbyn 3 atgyfeiriad o ganlyniad i'r achlysur yma, a phob un am gymorth gydag aelod o'u teulu yn byw gyda Dementia.
"Dyma gydweithrediad ardderchog ac rydw i'n edrych ymlaen at weld yr achlysuron yma'n cael eu cynnal yn rheolaidd."

Roedd yn gymorth mawr ac wedi darparu cyngor da iawn – diolch

Mae hyn wedi bod yn help mawr i mi heddiw. Diolch am wrando ac am wneud i mi wenu.

# Astudiaethau Achos Cymorth i Drigolion a Rhwydweithiau Cymdogaeth

RCT TOGETHER

SUPPORTING COMMUNITIES AND RESIDENTS TO THRIVE



# Trosglwyddo Asedau Cymunedol – adolygiad ar gyfer 2023/24

**Gwybodaeth yr Astudiaeth Achos:**

**Yn 2023/24, roedd y Garfan Trosglwyddo Asedau Cymunedol wedi:**

- Derbyn 216 ymholiad am gymorth
- Hysbysebu 4 o asedau'r Cyngor yn unol â threfniadau "30 Diwrnod" i fynegi diddordeb

Mae asedau'r Cyngor gafodd eu trosglwyddo yn llwyddiannus i berchnogaeth gymunedol yn cynnwys:

- **Canolfan Gymuned y Graig**
- **Neuadd Les Pensiynwyr Penrhiwceiber**
- **Tir ar Stryd Corbett, Penyrenglyn**

Cafodd y cyfleusterau canlynol eu hail-agor yn lleoliadau cymunedol:

- **Hen Lyfrgell Glynrhedynog** wedi'i hail-agor fel Y Siop Fach Sero
- **Canolfan Cana**, Pen-y-waun wedi'i hail-agor fel Hwb Cana

## Cydweithio i gynorthwyo Effeithlonrwydd Ynni Adeiladau Cymunedol yn Rhondda Cynon Taf:

Mae Carfan RhCT Gyda'n Gilydd wedi gweithio mewn partneriaeth â Chronfa Fferm Wynt Pen Y Cymoedd, Interlink, Coalfields Regeneration Ltd, Egin ac arianwyr allweddol i fanteisio ar gyfleoedd ariannu ar gyfer cyfleusterau cymunedol sydd angen archwiliadau effeithlonrwydd ynni ers 2022.

Cafodd dros 450 o grwpiau cymunedol y mae Carfan RhCT Gyda'n Gilydd yn ymwybodol ohonyn nhw eu hannog i gyflawni archwiliad effeithlonrwydd ynni. Hyd yn hyn mae:
**14 Archwiliad Effeithlonrwydd Ynni** wedi cael eu cynnal i'w hychwanegu at y **43** blaenorol, gan gynyddu'r cyfanswm i **57** hyd yn hyn. Roedd **37** o'r rhain wedi'u hariannu drwy'r partneriaid cyllid gyda'r **20** grŵp oedd yn weddill yn nodi bod archwiliadau wedi cael eu cynnal yn annibynnol.

Mae **99** o grwpiau hefyd wedi derbyn **£540** yr un o Grant Cyfleusterau Cymunedol Rhondda Cynon Taf, sef cyfanswm o **£53,460.** Mae'r grant wedi cael ei weinyddu ar y sail bod pob grŵp un ai wedi cynnal archwiliad effeithlonrwydd ynni ar gyfer eu hadeilad cymunedol neu'n bwriadu ceisio cyllid i gynnal archwiliad yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Mynediad at Wybodaeth

Cafodd 9 Adroddiad Gwerth Cymdeithasol ac 8 Adroddiad Mewnwelediad Lleol ar gyfer grwpiau cymuned eu creu gan y garfan.

## Cyllid sydd wedi'i ddarparu:

Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU – mae Grantiau Cymunedol Rhondda Cynon Taf gwerth **£250,798** wedi'u dyrannu i **17** grŵp cymunedol ar gyfer gwelliannau cyfalaf yn ystod 2023/24 gyda chyllid allanol ychwanegol gwerth **£256,511** wedi'i nodi yn gyllid gafodd ei ddarparu er mwyn cynorthwyo â gwelliannau cyfalaf pellach i gyfleusterau cymunedol yn Rhondda Cynon Taf.



# Trosglwyddo Asedau Cymunedol – bwrw golwg ar ail-ddatblygu dau o Asedau'r Cyngor yn 2023/24

## "Croeso i'n Coedwig"

Cafodd prydles hirdymor ar gyfer tir ar Stryd Corbett, Penyrenglyn ei gadarnhau ar gyfer Croeso i'n Coedwig ym mis Mai 2023 er mwyn galluogi cynllun peilot gweithgareddau Perllan Gymunedol ac Amaeth-goedwigaeth yn rhan o'u gweithgareddau Cronfa Gweithredu Hinsawdd wedi'u hariannu gan y Loteri Genedlaethol. Mae'r grŵp yn gweithio gyda Choleg y Mynydd Du ar hyn o bryd i ddarparu cymwysterau NVQ mewn Garddwriaeth Adfywiol a Phrysgoedio mewn sawl safle. Maen nhw hefyd yn llywio aelodau grŵp yn rhan o Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy Rhondda Cynon Taf.

Mae gweithgareddau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn yn cynnwys clirio llystyfiant er mwyn caniatáu mynediad gwell at y safle, ffens ar hyd y ffin a gwella'r ddarpariaeth eistedd bresennol. Mae sawl tunnell o wastraff gafodd ei dipio'n anghyfreithlon wedi'i waredu yn ogystal â phlannu 25 o goed ffrwythau (afalau, eirin a gellyg). Mae modd dod o hyd i ragor o fanylion am eu prosiect yma:
https://www.facebook.com/welcometoourwoods/









CYNGOR TREF PONTYPRIDD TOWN COUNCIL

## Canolfan Cymuned y Graig

Cafodd prydles 21 mlynedd o hyd ar gyfer Canolfan Cymuned y Graig ei gytuno ym mis Ionawr 2024 gyda Chyngor Tref Pontypridd. Yn dilyn cymorth cyllid cyfalaf gwerth £23,300 drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU – Cronfa Gymunedol Rhondda Cynon Taf yn ogystal â buddsoddiad gan Gyngor Tref Pontypridd, cafodd yr adeilad ei hail-agor yn swyddogol i'r cyhoedd ddydd Iau 25 Ebrill 2024. Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed am eu taith trosglwyddo ased yn y rhifyn nesaf. I ddysgu rhagor o wybodaeth am yr adeilad, cliciwch ar y ddolen isod; https://www.pontypriddtowncouncil.gov.uk/cy/latest-news











## Cyllid ac Adnoddau

Mae Carfan Datblygu'r Gymuned yn rheoli amrywiaeth o gyllid ac adnoddau:

- Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Cronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth
- Grant Urddas Mislif yn y Gymuned
- Cronfa Cymorth Bwyd Rhondda Cynon Taf
- Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU – Grant Cymunedol a Grant Bach Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cronfa Caledi'r Gaeaf
- Grant Cymorth Cyfleusterau Cymuned

Cyfanswm y cyllid gafodd ei ddyfarnu i grwpiau cymunedol oddeutu **£1.9 miliwn**

Cyfanswm nifer y grwpiau cymunedol wnaeth dderbyn cyllid grant **336**

**22,835** o unigolion wedi ymgysylltu'n well; **4089** o unigolion wedi derbyn bwyd poeth a diodydd yng Nghanolfannau Croeso'r Gaeaf; **2528** o gysylltiadau cymdeithasol gwell

**'Fe ddywedoch CHI, fe wnaethon NI'**

Yn Arolwg Rhwydweithiau Cymdogaeth RhCT Gyda'n Gilydd 2021 **DYWEDOCH CHI** wrthyn ni eich bod chi eisiau gweld **RHAGOR** o weithgareddau yn **EICH** cymuned

Fe wnaethon ni **WEITHREDU** ar eich adborth gan ddarparu **336** o grwpiau cymunedol gyda chyllid ar gyfer gweithgareddau





"Mae gallu cynnig man cynnes yn rheolaidd wedi ein helpu ni i adeiladu perthnasoedd gydag aelodau'r gymuned nad oedden ni wedi gallu cysylltu â nhw o'r blaen. Mae rhai ohonyn nhw bellach wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau eraill rydyn ni'n eu cynnig neu wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill fydd yn fuddiol o ran eu lles."

"Rydyn ni wedi chwerthin yn iach mewn cwmni da gyda diod boeth a bwyd a digon o weithgareddau"

"Rydych chi'n gwneud gwaith gwych, dw i mor falch y daethais i. Dw i'n teimlo'n fwy hyderus a byddaf yn dod eto"

Mae cymydog sy'n cynorthwyo dyn sy'n byw ar ben ei hun yn dilyn marwolaeth ei fam ac angen cymorth gyda sawl agwedd o'i fywyd wedi elwa o fynychu'r ganolfan. Mae bellach yn mynychu pob Bore Coffi ac yn teimlo'n hyderus i fynychu ar ei ben ei hun. Mae'n aros yma ac yn yfed coffi a chymdeithasu gydag aelodau eraill y gymuned a gwirfoddolwyr.

Dywedodd y dyn – "Dw i heb fod allan o'r tŷ ers 7 mlynedd, dw i heb weld fy chwaer ers 4 blynedd, ac rydw i wedi'i gweld hi yma heddiw, ac y tro cyntaf i mi siarad gyda hi ers 4 blynedd.

Dywedodd ei chwaer – "Dw i heb fod yn y ganolfan ers pan oeddwn yn ifanc. Mae'n hyfryd ei weld ar agor unwaith yn rhagor – roedden nhw wedi ceisio cynnal boreau coffi yna o'r blaen ond doedd neb wedi dod. Mae'n teimlo'n wahanol y tro yma, mae wir yn teimlo fel petai'r ganolfan yn dod at ei gilydd unwaith yn rhagor."

"Mae'r sesiynau am y gronfa, canllawiau a'r broses ymgeisio yn addysgiadol iawn."

"Mae'r cymorth ar gyfer y cais grant yma a cheisiadau grant blaenorol wedi bod yn wych. Mae'r swyddogion ar gael bob tro, yn wybodus ac yn darparu cyfle ardderchog i rwydweithio."

# Astudiaethau Achos Cyllid ac Adnoddau

RCT TOGETHER

SUPPORTING COMMUNITIES AND RESIDENTS TO THRIVE






# Cymunedau Oed-gyfeillgar

Daeth Rhondda Cynon Taf yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau a Dinasoedd Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), ym mis Mawrth 2024.

Cymru Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly Wales

## Cronfa Rhaglen Ddementia Gymunedol

**20** Nifer y grwpiau

**469** o unigolion 50 mlwydd oed a hŷn wedi elwa

**370** o unigolion wedi nodi cysylltiadau cymdeithasol cynyddol

**327** o unigolion wedi nodi gwell Iechyd Meddwl

**332** o unigolion wedi nodi eu bod nhw'n teimlo'n llai unig

**203** o unigolion wedi nodi eu bod nhw'n fwy actif

**406** o unigolion wedi nodi bod gyda nhw ragor o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth

Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative

## Cyfeillion Dementia Cyngor Rhondda Cynon Taf

- Wedi cynnal **6** Sesiwn Gwybodaeth Cyfeillion Dementia gan greu cyfanswm o **110** Cyfaill Dementia newydd.
- Sesiwn Gwybodaeth Cyfeillion Dementia Digidol neu Amgen, gyda monitro angenrheidiol i **289** o Gyfeillion Dementia
- Mae **33** o unigolion o grwpiau wedi'u hariannu a sefydliadau wedi ymrwymo i gyflawni'r hyfforddiant perthnasol i fod yn Llysgenhadon Cyfeillion Dementia

RCT TOGETHER

SUPPORTING COMMUNITIES AND RESIDENTS TO THRIVE

"Mae wedi newid fy mywyd. Mae modd i chi deimlo cynhesrwydd y cyfeillgarwch yn y clwb. Mae'n rhaff achub. Rwy'n byw ar fy mhen fy hun felly mae cael cwrdd a sgwrsio â llawer o bobl gyfeillgar yn bwysig iawn i fy iechyd meddwl. Rwy'n edrych ymlaen at fynychu."

"Mae'n rhoi pwrpas i'n bywydau ac yn gyfle i gwrdd a sgwrsio â phobl gyfeillgar iawn."

"Roedd y pantomeim yn fy atgoffa o amseroedd hapus gyda fy mhlant a fy wyrion ac wyresau ac fe wnaethon ni chwerthin drwy'r prynhawn."

Clwb dydd Llun er mwyn hwyluso amrywiaeth o sesiynau i aelodau – pilates wrth eistedd, crefftau, sesiynau gwybodaeth, gweithgareddau cymdeithasol, achlysuron arbennig a gweithio mewn partneriaeth, rhywbeth sy'n hollol angenrheidiol.

Yn y grŵp, mae'n bwysig i ni sicrhau fod modd i aelodau hŷn y gymuned gael mynediad at y cyfleoedd rydyn ni'n eu darparu fel grŵp. Mae'r cyllid yn ein galluogi ni i ddatblygu cyfleoedd ychwanegol ac amrywiaeth o weithgareddau er mwyn sicrhau ei fod o ddiddordeb i bob aelod.

Rydyn ni fel grŵp wedi dysgu cymaint am ddementia a sut mae pethau bychain yn gallu gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, gall bod ag amynedd a dangos caredigrwydd a thosturi helpu'r rheiny sy'n byw gyda'r cyflwr. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gynorthwyo'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan ddementia yn ein cymuned yn well.

Rydyn ni hefyd wedi dysgu bod modd defnyddio swm gymharol fach o gyllid mewn ffordd dda iawn.

"Fe wnes i fwynhau'r pilates yn benodol am ei fod yn fy helpu i gyda llid cymalau fy nghlun ac mae'n fy helpu i gydlynu fy ymennydd a symudiadau'r corff."

"Mae'r drafodaeth am ddementia wedi bod yn werthfawr. Yn dilyn trafodaeth gyda ffrind, rydw i wedi dysgu ei bod hi'n dangos arwyddion cychwynnol dementia."

# Astudiaethau Achos Cymunedau Oed-gyfeillgar

RCT TOGETHER

SUPPORTING COMMUNITIES AND RESIDENTS TO THRIVE

# Cadwch lygad – datblygiadau ar y gweill

**Arolwg Rhwydwaith Cymdogaeth – RhCT Gyda'n Gilydd**

Hoffen ni ddysgu rhagor am beth sy'n bwysig i unigolion a'u cymunedau.
Bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

Snap Surveys (welcomesyourfeedback.net)

**Gwerthusiad Carfan RhCT Gyda'n Gilydd**

Mae eich adborth CHI yn bwysig i ni – cadwch lygad allan am yr wynebau isod a nodwch eich adborth gonest.

**Datblygiadau Gwefan RhCT Gyda'n Gilydd**

Gwefan ar ei newydd wedd yn dod yn fuan!




Dementia Friends
An Alzheimer's Society initiative




SUSTAINABLE FOOD places
RCT BRONZE

Cymru Oed-Gyfeillgar
Age-Friendly Wales

FFYNIANT BRO
LEVELLING UP

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# CYSYLLTWCH Â'R GARFAN

Ar gyfer **Trosglwyddo Asedau Cymunedol** ac Ymholiadau Cyffredinol, cysylltwch â -

rhctgydangilydd@rctcbc.gov.uk 01443 425368

Ar gyfer **Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, Rhwydweithiau Cymdogaeth a Chymorth i Drigolion** e-bostiwch -

HybiauCymunedolCydnerth@rctcbc.gov.uk

Ar gyfer **Grantiau Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf** e-bostiwch carfan Rhaglenni'r Gymuned -

GrantCymunedCFfGRhCT@rctcbc.gov.uk

Neu bwriwch olwg ar **Wefan RhCT Gyda'n Gilydd**

RhCT Gyda'n Gilydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)



